**Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai** LGH–06–03(p.1.)

**Dyddiad:** 19 Mawrth 2003

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Teitl:** **Y Diweddaraf am Gronfa Datblygu Swyddfa'r Post**

## Diben

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post.

## Crynodeb

2. Yn y papur hwn, disgrifir yr ymateb i Gronfa Datblygu Swyddfa'r Post a'r hyn oedd y tu ôl i benderfyniad y Gweinidog i ehangu nifer y rhanbarthau etholiadol difreintiedig ac anghysbell sy'n gymwys i gael cymorth o'r gronfa.

## Y Cefndir

3. Er nad yw polisi'r Swyddfa'r Post yn fater sydd wedi ei ddatganoli, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiddordeb mawr mewn swyddfeydd post a gwasanaethau postio, am eu bod yn hanfodol bwysig i fywyd cymunedol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru. Bydd swyddfeydd post yn wynebu cyfnod anodd iawn ar ôl Ebrill 2003 pan fydd budd-daliadau yn cael eu talu'n electronig am y tro cyntaf. Amcangyfrifwyd y gallai'r trefniadau newydd olygu colled o hyd at 40% o incwm i'r swyddfa bost gyffredin. Gan gydnabod bod bygythiad i'r gwasanaethau post presennol, lansiwyd Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Tachwedd 2002.
4. Bydd y gronfa ar gael tan fis Rhagfyr 2005 a bydd yn anelu at roi tua £2.5 miliwn ar gyfer cynnal ac ehangu'r ystod o wasanaethau a chyfleusterau sy'n cael eu darparu gan swyddfeydd post lleol yn y rhanbarthau etholiadol mwyaf difreintiedig ac anghysbell yng Nghymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r weinyddiaeth gyntaf yn y DU i gyflwyno Cronfa fel hon. Hyd yma cyhoeddwyd dros 300 o becynnau cais a daeth 20 cais am gyllid i law mewn ymateb i'r rownd ymgeisio gyntaf, a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2003. O'r 20 cais hwn, mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cymeradwyo - mewn egwyddor - gyllid o dros £300,000 ar gyfer naw prosiect.
5. Er mwyn diogelu rhagor o swyddfeydd post sydd mewn perygl o gau mewn cymunedau difreintiedig ac anghysbell, penderfynodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ehangu nifer yr ardaloedd sy'n gymwys i gael cyllid o 100 i 125 o'r rhanbarthau etholiadol mwyaf difreintiedig a 125 o'r rhanbarthau etholiadol mwyaf

anghysbell yng Nghymru. Yn sgil y cynnydd hwn disgwylir y bydd nifer y swyddfeydd post cymwys yn cynyddu o tua 360 i oddeutu 450.

6. Mae tri o'r rhai a ymgeisiodd y tro cyntaf, a gyflwynodd brosiectau gwerth chweil, y tu allan i'r 100 o ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r 100 o ardaloedd mwyaf anghysbell, ond maent o fewn y rhestr estynedig o ardaloedd cymwys a byddant yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn yr ail rownd ymgeisio. Daw'r ail rownd ymgeisio i ben ar 31 Ebrill 2003. Bydd y rhai hynny na fu'n llwyddiannus yn y rownd gyntaf yn cael adborth priodol.

**Goblygiadau Ariannol**

7. Mae'r adnoddau ar gyfer Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post wedi eu cynnwys yn narpariaethau presennol y gyllideb neu'r gwariant dangosol sydd wedi ei gynllunio.

**Themâu trawsbynciol**

8. Mae Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post yn cyd-fynd ag agenda Cymunedau yn Gyntaf am fod y cymorth wedi ei anelu at y rhanbarthau mwyaf difreintiedig ac anghysbell yng Nghymru. Mae'r trefniadau hefyd yn rhan o flaenoriaeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag amddifadedd yn yr ardaloedd mwyaf anghenus hynny a glustnodwyd yn y *Cynllun i Gymru.*

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r datblygiadau a amlinellir yn y Papur hwn.

**Edwina Hart**

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Swyddog cyswllt: Steve Jackson, Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, Ffôn 1155